**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Hannah Blythyn AS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**10 Ionawr 2024**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. Diben y Gorchymyn hwn yw:

- estyn y cyfnod y mae gan bersonau a gyflogid yng Nghymru fel diffoddwyr tân wrth gefn fynediad i gynllun pensiwn ynddo;
- darparu bod diffoddwyr tân sy'n cael eu hanafu o dan fathau penodol o gontractau eilaidd, gyda'r un awdurdod tân ac achub, yn cael dyfarndaliadau digolledu sy'n gymesur â lefel eu gwasanaeth a'u tâl o dan eu prif gontract cyflogaeth.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi na chafodd Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) 1992 na Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 eu creu yn ddwyieithog, a dyna'r rheswm dros ffurf Gorchmynion 2024 sy'n diwygio'r gorchmynion cynharach hynny. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu na fyddai'n gymesur dirymu Gorchymyn 1992 na Gorchymyn 2007 a'u hail-wneud yn ddwyieithog.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 ("Gorchymyn Cynllun Pensiwn 2007"), i estyn y cyfnod y mae gan bersonau a gyflogid yng Nghymru fel diffoddwyr tân wrth gefn fynediad i'r cynllun pensiwn, a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw, ynddo. Mae hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ("Gorchymyn 1992").

3.2 Gwneir y diwygiadau i Orchymyn Cynllun Pensiwn 2007 gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 34(1), (2) a (4), a 60(2) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004"). Rhoddwyd y pwerau a roddir gan adran 34 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, gan adran 62 o Ddeddf 2004. Fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

3.3 Gwneir y diwygiadau i Orchymyn 1992 gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), (2) a (5) o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947. Diddymwyd y Ddeddf honno gan Ddeddf 2004. Mae is-adrannau (1), (2) a (5) o adran 26 yn parhau i gael effaith, o ran Cymru, at ddibenion y cynllun pensiwn a nodir yn Atodlen 2 i Orchymyn 1992, yn rhinwedd erthygl 3 o O.S. 2004/2918 (Cy. 257) a'r Atodlen iddo. Cyn belled ag y mae Deddf 2004 yn parhau mewn grym, mae'r pwerau o dan adran 26 fel y maent yn ymwneud

â Chymru yn cael effaith fel pe bai cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

3.4 Mae’r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio Gorchymyn Cynllun Digolledu’r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (“Gorchymyn Cynllun Digolledu 2007”). Mae'r diwygiadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer achosion pan fo diffoddwr tân yn cael anaf wrth arfer dyletswyddau o dan fathau penodol o gontract cyflogaeth eilaidd sydd ganddo gyda'r un awdurdod tân ac achub. Gwneir y diwygiadau hynny hefyd o dan adrannau 34(1), (2) a (4), a 60(2) o Ddeddf 2004.

3.5 Ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â’r personau hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud y Gorchymyn hwn, yn unol ag adran 34(5) o Ddeddf 2004. Eglurir y broses yn fanylach isod o dan adran 5.

3.6 Gwneir y Gorchymyn hwn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Cafodd diffoddwyr tân "ar alwad" o dan y system ar ddyletswydd yn ôl y galw (diffoddwyr tân RDS) yng Nghymru fynediad i gynllun pensiwn galwedigaethol am y tro cyntaf o 6 Ebrill 2006 ymlaen, o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007. Yn dilyn achos Tribiwnlys Cyflogaeth Matthews and others v Kent and Medway Towns Fire Authority, diwygiwyd Cynllun 2007 yn 2014 i gyflwyno 'cynllun wedi'i addasu' ar gyfer diffoddwyr tân RDS. Roedd yn ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub gynnal ymarfer opsiynau ('ymarfer opsiynau cyntaf') a oedd yn cynnig y cyfle i bob diffoddwr tân RDS 'o fewn cwmpas' i brynu ei wasanaeth blaenorol yn ôl-weithredol o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen. Roedd y dyddiad hwnnw'n cynrychioli'r dyddiad y daeth Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000 i rym yn y DU. Gweithredodd y Rheoliadau hynny Gyfarwyddeb (EU) 97/81, er iddynt wneud hynny ar ôl y terfyn amser ar gyfer trosi o 7 Ebrill 2000.

4.2 Yn 2018, dyfarnodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (ar gyfeiriad oddi wrth y Goruchaf Lys yn achos O'Brien v Ministry of Justice), fod gan farnwr rhan-amser a oedd yn ei swydd adeg y terfyn amser ar gyfer trosi hawl i elwa ar Gyfarwyddeb 97/81 o 7 Ebrill 2000 ymlaen, ac mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth di-dor cyn y dyddiad hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y dyfarniad hwn yr un mor berthnasol i ddiffoddwyr tân RDS, fel bod y terfyn amser o 1 Gorffennaf 2000 yn y cynllun wedi'i addasu ar gyfer diffoddwyr tân RDS yng Nghynllun Pensiwn diwygiedig y Diffoddwyr Tân 2007 hefyd yn anghyfreithlon.

4.3 Bydd y diwygiadau yn y Gorchymyn hwn yn rhoi'r cyfle i unigolion, a oedd yn gwasanaethu yn RDS rhwng 7 Ebrill 2000 a 30 Mehefin 2000, i brynu pensiwn

ar gyfer y cyfnod hwnnw. Bydd hefyd yn galluogi unrhyw un a wasanaethodd yn ddi-dor cyn 7 Ebrill 2000 i wneud hynny. Yn ogystal, bydd yn rhoi'r cyfle i unigolion, a oedd yn gwasanaethu yn RDS rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 6 Ebrill 2006 na ellid cysylltu â hwy yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf yn 2014-15, i brynu hawliau pensiwn yn awr.

4.4 Mae'r diwygiadau yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer y canlynol:-

- paramedrau clir o ran pwy sy'n gymwys, a'r cyfnod hawl (sy'n cwmpasu'r holl wasanaeth parhaus blaenorol hyd at 31 Mawrth 2015),
- ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gynnal ail ymarfer opsiynau i'w gwblhau o fewn cyfnod o 18 mis, gan wahodd unigolion cymwys i benderfynu a oeddent am brynu hawliau pensiwn ar gyfer eu gwasanaeth i RDS,
- cyfrifo cyflog pensiynadwy a gwasanaeth pensiynadwy unigolion cymwys,
- trefniadau talu ar gyfer cyfraniadau gweithwyr sy'n ddyledus, yn amodol ar log a chan ystyried yr hawl i ryddhad treth,
- darparu ar gyfer buddion a dyfarndaliadau personol i aelodau, gan gynnwys darpariaethau penodol sy'n ymwneud ag ymddeol oherwydd afiechyd, a'r grant marwolaeth arbennig i oroeswyr,
- ymdrin â materion cysylltiedig fel trosglwyddo pensiynau, trosi pensiynau, a sicrhau na thorrir yr uchafswm cap ar wasanaeth o 30 mlynedd.

4.5 Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i ddarparu y dylid trin anaf a gafwyd yng nghwrs contract eilaidd fel pe bai yn anaf a gafwyd wrth arfer dyletswyddau o dan brif gontract y diffoddwr tân.

- Ar gyfer diffoddwyr tân sydd â chyflogaeth eilaidd dros dro i ymateb i argyfwng o fath a grybwyllir yn adran 7 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, neu erthyglau 2, 3 neu 3A o Orchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 gyda'r un awdurdod tân ac achub, bydd anaf a gafwyd wrth gyflawni dyletswyddau a oedd yn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath yn cael ei drin fel pe bai yn anaf a gafwyd o dan eu cyflogaeth fel diffoddwr tân rheolaidd neu ddiffoddwr tân wrth gefn.

- Ar gyfer diffoddwr tân rheolaidd sydd â chyflogaeth eilaidd gyda'r un awdurdod tân ac achub fel diffoddwr tân wrth gefn, byddai anaf a gafwyd wrth gyflawni ei gyflogaeth wrth gefn yn cael ei drin fel pe bai yn anaf a gafwyd o dan ei gyflogaeth fel diffoddwr tân rheolaidd.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae adran 34(5) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud, amrywio neu ddirymu gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 2004.

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y Rheoliadau drafft rhwng 14 Gorffennaf 2023 a 6 Hydref 2023. Trafodwyd yr ymgynghoriad ym Mwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân[1] a chafodd ei ddwyn i sylw sefydliadau sy'n cynrychioli staff y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, ynghyd â rheolwyr cynlluniau a gweinyddwyr cynlluniau perthnasol. Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu hefyd â fforwm sydd ar gael i ddiffoddwyr tân sydd wedi ymddeol.

5.3 Mae pob ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân, gan gynnwys ar y rhain a rheoliadau eraill y cynllun, ar gael i'r cyhoedd ac nid ydynt wedi eu cyfyngu i sefydliadau penodol. Gall unrhyw sefydliad neu unigolyn eu darllen ac ymateb iddynt os dymunant; rydym yn ceisio drafftio dogfennau ymgynghori mewn ffyrdd sy'n hygyrch i aelodau unigol y cynllun yn ogystal ag i'w cyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol.

5.4 Cafodd Llywodraeth Cymru 14 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth yr ymatebion hynny gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, sefydliadau cynrychioliadol ac undebau llafur sy'n cynrychioli staff yr Awdurdodau Tân ac Achub, darparwr meddalwedd pensiwn, a chan wyth unigolyn.

5.5 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried. Roedd cytundeb eang bod y cynigion drafft yn bodloni'r gofynion a nodwyd, sef: gwneud darpariaethau sydd eu hangen i weithredu'r ail ymarfer opsiynau a sicrhau bod diffoddwyr tân sy'n cael eu hanafu o dan fathau penodol o gontractau eilaidd, gyda'r un awdurdod tân ac achub, yn gallu cael dyfarndaliadau digolledu yn fwy teg.

5.6 Gwnaed diwygiadau i'r darpariaethau i fynd i'r afael ag amrywiol faterion a nodwyd gan ymatebwyr ac i adlewyrchu ystyriaethau pellach ar ôl ymgynghori.

5.7 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

[Hawliau pensiwn diffoddwyr tân y system ar ddyletswydd yn ôl galw yn 2023 | LLYW. CYMRU]

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Yr opsiynau

6.1 Mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Dirprwy Weinidog fel a ganlyn:-

---

[1] Aelodau'r Bwrdd yw: tri Awdurdod Tân ac Achub Cymru; Undeb y Brigadau Tân; Cymdeithas yr Arweinwyr Tân; Cymdeithas y Swyddogion Tân; a'r Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r Cadeirydd yn annibynnol ar yr holl sefydliadau hyn ac ar Lywodraeth Cymru.

**Opsiwn 1. Gwneud Dim –** Cyflwynodd diffoddwyr tân RDS achosion yn y Tribiwnlys Cyflogaeth yn ceisio'r un driniaeth â diffoddwyr tân amser-cyflawn. Cyfeiriwyd hyn at Dŷ'r Arglwyddi yn 2006 a dyfarnodd penderfyniad dilynol gan y Tribiwnlys Cyflogaeth, o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, y dylid trin diffoddwyr tân RDS yn gyfartal â diffoddwyr tân rheolaidd amser-cyflawn o ran eu telerau ac amodau gwasanaeth, gan gynnwys buddion pensiwn. Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweinyddiaethau eraill, addasiadau sylweddol i Gynllun Pensiwn 2007 i ddarparu mynediad at fuddion pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân RDS a oedd wedi'u cyflogi yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006 (yr ymarfer opsiynau cyntaf).

Dyfarnodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, (ar gyfeiriad oddi wrth y Goruchaf Lys) yn 2018, y dylai holl wasanaeth unigolyn fod yn bensiynadwy, nid gwasanaeth ar neu ar ôl cyflwyno Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser 2000 yn unig.

Heb y Gorchymyn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn torri ei rhwymedigaethau i sicrhau bod diffoddwyr tân RDS yn cael telerau ac amodau tebyg i'w cydweithwyr amser-cyflawn. Byddai hefyd yn golygu y byddai diffoddwyr tân RDS yng Nghymru mewn sefyllfa waeth na'r rhai yng ngweddill y DU, o gofio bod y gweinyddiaethau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno mesurau cyfatebol.

Nid yw diffoddwr tân sy'n cael anaf wrth ymgymryd â dyletswyddau Chwilio ac Achub Trefol (USAR) o dan gontract eilaidd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub yn gymwys ar hyn o bryd i gael digolledid o dan Gynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. Mae gan rai diffoddwyr tân amser-cyflawn gontractau eilaidd hefyd i ymgymryd â dyletswyddau RDS. Mae'r rhan fwyaf o gontractau RDS yn cael eu talu ar sail nifer y digwyddiadau y mae'r diffoddwr tân yn ymateb iddynt yn unig, sy'n golygu bod enillion o dan gontractau o'r fath yn tueddu i fod yn sylweddol is nag o dan gyflogaeth amser-cyflawn. O dan ddarpariaethau presennol y cynllun, pe bai anaf yn digwydd a oedd i'w briodoli'n llwyr i ddyletswyddau contract y diffoddwr tân wrth gefn, byddai budd-daliadau'r anaf yn seiliedig ar ei gyflog a'i wasanaeth o dan y contract hwnnw'n unig, a byddai unrhyw wasanaeth o dan ei brif gontract amser-cyflawn yn cael ei ddiystyru. Gallai hyn arwain at yr unigolyn yn cael swm sylweddol is o ddigolledid nag y byddai'n gymwys iddo o dan ei brif gontract cyflogaeth.

Heb y Gorchymyn hwn, byddai'r sefyllfa annheg ac anghyfiawn a amlinellir uchod yn parhau.

**Opsiwn 2. Gwneud y Ddeddfwriaeth –** Bydd y Gorchymyn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, fel y dyfarnwyd gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, (ar gyfeiriad oddi wrth y Goruchaf Lys) yn 2018. Bydd y Gorchymyn hwn yn caniatáu i aelodau RDS cymwys brynu rhywfaint neu'r cyfan o'u gwasanaeth cyn

ac ar ôl 7 Ebrill 2000 hyd at 1 Ebrill 2015 yn y Cynllun wedi'i Addasu. Bydd hyn hefyd yn gymwys i'r rhai na chawsant gyfle i brynu eu **holl** wasanaeth blaenorol yn ystod yr ymarfer opsiynau cyntaf (a oedd yn gymwys o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen yn unig). Byddai'n golygu y byddai darpariaethau ar gyfer diffoddwyr tân RDS yng Nghymru yn cyd-fynd â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon lle mae mesurau cyfatebol wedi'u cyflwyno.

Byddai hefyd yn sicrhau bod Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân 2007 yn trin anafiadau a gafwyd o dan gontractau eilaidd penodol yn decach.

## 7. Costau a manteision

### Costau

7.1 Bydd y diwygiadau i Gynllun Pensiwn 2007 yn arwain at daliadau cynyddol i aelodau cynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn amcangyfrif y bydd 1,700 o unigolion yn gymwys i gymryd rhan yn yr ymarfer opsiynau. Mae hyn yn seiliedig ar ddata gan un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Mae cost yr ail ymarfer opsiynau yn cael ei adlewyrchu ym mhrisiad cynllun pensiwn 2020 sydd ar y gweill ar hyn o bryd, gan ddefnyddio rhagdybiaethau a osodwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys nifer yr unigolion cymwys y cyfeirir atynt uchod, eu patrwm cyflogaeth a'u dyddiadau geni, rhagdybiaeth tâl o 25% o dâl pensiynadwy a rhagdybiaeth ar gyfer cyfradd hawlio yn seiliedig ar yr ymarfer opsiynau cyntaf. Disgwylir i'r canlyniadau prisio gael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2024.

7.2 Fodd bynnag, ni ellir cyfrifo'r goblygiadau cost yn llawn nac yn gywir hyd nes y bydd yr ail ymarfer opsiynau wedi'i gwblhau a nifer y diffoddwyr tân RDS sy'n dewis bod yn aelodau o'r cynllun yn hysbys. Bydd costau'r diwygiadau i'r cynllun yn parhau i gael eu hadlewyrchu mewn prisiadau yn y dyfodol.

7.3 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw data ar ymddeoliadau oherwydd afiechyd sy'n deillio o anaf yn y gwaith, na chostau unrhyw ddigolled6iad cysylltiedig o dan Gynllun Digolledu 2007. Cofnodir data ar nifer yr anafiadau difrifol (rheoliadau adrodd ar anafiadau, clefydau a digwyddiadau peryglus – RIDDOR) ac anafiadau angheuol wrth ymgymryd â dyletswyddau diffoddwyr tân, ond mae'r niferoedd yn rhy isel i'w cyhoeddi. Gan fod nifer cyffredinol yr anafiadau difrifol mor isel beth bynnag, gallwn dybio y bydd y newidiadau ychwanegol i'r gofynion digolledu yn cael effaith ariannol fach iawn.

7.4 Mae costau yn cael eu hariannu gan gyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr, ynghyd â grant Gwariant Blynyddol a Reolir gan Drysorlys EF, a ddefnyddir i ychwanegu at y gwahaniaeth rhwng incwm a gwariant y cynllun.

i. ***Costau aelodau*** – bydd angen i bob unigolyn sy'n dewis ymuno â'r cynllun pensiwn dalu'r cyfraniadau aelodau sy'n ddyledus ar gyfer y cyfnod o wasanaeth y maent yn prynu pensiwn ar ei gyfer. Bydd y rhai sydd eisoes wedi ymddeol ac sydd â hawl i gael taliad ar unwaith o'u buddion yn cael eu cyfraniadau wedi'u netio yn erbyn unrhyw fuddion pensiwn sy'n ddyledus. Bydd unigolion nad ydynt wedi ymddeol eto yn gallu talu cyfraniadau sy'n ddyledus fel cyfandaliad ar unwaith neu o bryd i'w gilydd dros gyfnod y cytunwyd arno rhyngddynt hwy eu hunain a'r Awdurdod Tân ac Achub sy'n cyflogi.

ii. ***Costau cyflogwyr –*** mae'r prisiad y cyfeirir ato ym mharagraff 7.1 yn pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y newid nesaf yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024. Bydd costau gweinyddu'r ymarfer opsiynau yn cael eu talu gan yr Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn ariannu costau digolledu yn llawn o dan gynllun digolledu'r diffoddwyr tân. Caiff Awdurdodau Tân ac Achub eu hariannu gan Awdurdodau Lleol eu hardaloedd. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ar gyfer 2024-25 i dalu'r costau cyflogwyr sy'n deillio o'r prisiad.

**Manteision**

7.5 Bydd pob unigolyn cymwys yn cael y cyfle i brynu hawliau pensiwn yn yr adran wedi'i haddasu o Gynllun Pensiwn 2007. Bydd aelodaeth o'r cynllun yn darparu buddion pensiwn o dan ymddeoliad arferol ac ymddeoliad oherwydd afiechyd, a buddion i oroeswyr. Bydd y diwygiadau hefyd yn darparu ar gyfer mynediad tecach i ddigolledaid mewn perthynas ag anaf neu farwolaeth a gafwyd tra bo person yn cyflawni dyletswyddau penodol o dan gontract cyflogaeth eilaidd gyda'r un awdurdod tân ac achub.

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

8.1 Amherthnasol.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Gwneir hyn drwy Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru, lle bydd cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogeion yn cael cyfle i godi materion yn ymwneud â'r Gorchymyn a'r trefniadau ymarferol ar gyfer ei roi ar waith.